

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

### Y BIL MENTER : DARPARIAETHAU ARDRETHI ANNOMESTIG

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Gosodwyd y Bil Menter (y “Bil”) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 16 Medi 2015. Gellir cael copi o'r Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2015-16/enterprise.html>

#### **Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi**

3. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (“BIS”). Prif amcanion datganedig polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw:

- Cadarnhau statws y DU fel y lle gorau yn Ewrop i ddechrau a datblygu busnes, trwy dorri biwrocratiaeth a'i gwneud yn haws i fusnesau bach ddatrys anghydfod yn gyflym ac yn rhwydd; a
- Gwobrwyo entrepreneuriaeth, creu swyddi a chyflogau uwch i bawb, a chynnig cyfle i bobl ym mhob cam o'u bywydau.

4. Mae i'r Bil naw rhan:

- Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaeth i sefydlu Comisiynydd Busnesau Bach;
- Mae Rhan 2 yn darparu ar gyfer estyn y Targed Effaith ar Fusnesau i gynnwys rheoleiddwyr ac yn cefnogi newid cyfeiriad yn y ffordd y cyflwynir rheoleiddio gan reoleiddwyr trwy'r Ddyletswydd Twf a Chod y Rheoleiddwyr;
- Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer symleiddio'r Cynllun Prif Awdurdodau;
- Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaethau i gyflwyno targed ar gyfer nifer y prentisiaid sy'n gweithio yng nghyrff y sector cyhoeddus ac i atal y term 'Prentisiaeth' rhag cael ei gamddefnyddio;

- Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaethau i gyflwyno rhwymedigaeth gyfreithiol i hawliadau yswiriant gael eu talu o fewn amserlen resymol;
- Mae Rhan 6 yn darparu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio i (“y VOA”) rannu gwybodaeth am ardrethi annomestig ynghylch eiddo a threthdalwyr â llywodraeth leol a hefyd yn diwygio'r system apeliadau ar gyfer trethi annomestig;
- Mae Rhan 7 yn gwneud darpariaethau sy'n diweddarau Deddf Datblygu Diwydiannol 1982;
- Mae Rhan 8 yn gwneud darpariaethau i gapio taliadau ymadael i weithwyr y sector cyhoeddus; a
- Mae Rhan 9 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â diwygiadau canlyniadol, darpariaethau trosiannol ac arbed a chychwyn.

### **Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad amdano**

5. Mae Rhan 6 cymal 22 yn ymwneud â Datgelu gwybodaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (“CThEM”) mewn cysylltiad ag ardrethi annomestig (NDR). Mae'r Bil yn diwygio Rhan 3 (ardrethi annomestig) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i greu porth cyfreithiol i alluogi VOA, fel un o asiantaethau gweithredol CthEM, i rannu gwybodaeth NDR â pherson cymwys neu at ddiben cymwys.
6. Mae person cymwys yn cynnwys : awdurdodau bilio, prif awdurdodau praeseptio, person sydd wedi'i awdurdodi i ymarfer swyddogaethau ar ran awdurdod bilio neu brif awdurdod praeseptio, yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru ac unrhyw berson a bennir gan reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru, neu i ddarparu gwasanaethau iddynt.
7. O dan y darpariaethau hyn pennir diben cymwys fel:
  - Galluogi neu gynorthwyo person i gyflawni unrhyw swyddogaethau a gyflwynir gan neu o dan Ran 3, ar yr amod nad ydynt yn swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru;
  - Galluogi neu gynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru i gyflawni'r swyddogaethau a gyflwynir gan neu o dan Ran 3 mewn perthynas â rhestr ardrethi annomestig;
  - Unrhyw ddiben penodedig arall sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig.
8. Pennu diben ar gyfer rhannu gwybodaeth NDR neu bennu person y gellir datgelu gwybodaeth o'r fath iddo. Rhaid gwneud rheoliadau sy'n

ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac ni ellir eu gwneud ond gyda chydysniad blaenorol Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ("y Comisiynwyr").

9. Gwneir darpariaeth hefyd i osod cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth a ddarperir gan VOA o dan y darpariaethau hyn, gan gynnwys rhoi pŵer i'r Comisiynwyr gydsynio bod gwybodaeth a ddatgelir yn cael ei datgelu ymhellach, yn ogystal â chreu trosedd ar gyfer datgelu anghyfreithlon a chosbau cysylltiedig.

10. Mae'r darpariaethau'n gymwys mewn perthynas â Chymru.

11. Fel y nodir ym mharagraff 8, mae'r darpariaethau'n cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth yn pennu dibenion y gellir awdurdodi datgelu gwybodaeth i berson cymwys ar eu cyfer. Mae'r is-ddeddfwriaeth hon yn gofyn am gysyniad y Comisiynwyr ymlaen llaw ac mae'n destun y weithdrefn gadarnhaol.

12. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â "chyllid llywodraeth leol" a "phwerau a dyletswyddau'r awdurdodau lleol" o dan baragraff 12 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### **Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad**

13. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU hwn am resymau amseru a chydlyniaeth. Mae natur gysylltiedig systemau NDR perthnasol Cymru a Lloegr a'r ffaith bod VOA yn gweithredu ar draws ffiniau fel un o asiantaethau CthEM yn golygu ei bod yn effeithiol ac yn briodol o safbwynt bwrw ymlaen â darpariaeth ar gyfer gweinyddiaethau Cymru a Lloegr yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.

### **Goblygiadau Ariannol**

14. Nid oes unrhyw oblygiadau ynghlwm wrth gydsynio â'r darpariaethau a nodir yn y Bil.

**Leighton Andrews, AC**  
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**  
**Hydref 2015**